GWERTHUSO EICH DYSGU

- Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r *Olwynion gwerthuso* isod i bwyso a mesur eu dysgu a'u dealltwriaeth ar ôl cwblhau'r tair uned. Dylai'r dysgwyr nodi croes neu ddot ar bob llinell fewnol er mwyn dangos pa mor hyderus ydynt ynghylch y datganiad ar y tu allan. Yr agosaf yw'r marc at y tu allan i gylch yr olwyn y mwyaf hyderus yw'r dysgwr am y datganiad. Yr agosaf yw'r marc at y tu mewn i gylch yr olwyn y lleiaf hyderus yw'r dysgwr am y datganiad. Dylai'r dysgwyr gysylltu eu dotiau neu groesau er mwyn creu octagon.
- Fel arall, efallai yr hoffech gwblhau'r *Olwyn werthuso wag* i greu eich gwerthusiad eich hun sy'n diwallu anghenion penodol eich dysgwyr.



- Dylech wahodd eich dysgwyr i rannu eu holwynion gwerthuso gyda'r disgyblion eraill. Trafodwch fel grŵp sut maent yn teimlo am eu dysgu. Gallech sbarduno'r sgwrs gyda'r dysgwyr drwy ofyn y cwestiynau canlynol:
    - *Pa feysydd dysgu rydym fwyaf hyderus yn eu cylch?*
    - *Pa feysydd dysgu rydym leiaf hyderus yn eu cylch?*
    - *Yn eich barn chi, beth yw'r peth pwysicaf rydych wedi'i ddysgu*?
    - *Yn eich barn chi, pa weithgareddau oedd fwyaf diddorol a pham?*
    - *Yn eich barn chi, pa ddata oedd y rhai mwyaf diddorol a pham?*
    - *Am beth yr hoffech ddysgu mwy?*
- Gofynnwch am syniadau gan y dysgwyr ynghylch sut y gallent ddatblygu eu dysgu a symud mwy o'u croesau neu ddotiau i'r tu allan i'r olwyn. Gallai syniadau posibl gynnwys: paru dysgwyr gallu tebyg, paru disgyblion hyderus gyda disgyblion llai hyderus at ddiben addysgu gan gymheiriaid, dysgu'n annibynnol ac ailedrych ar rai o'r gweithgareddau. Os bydd amser ar ôl, gallai'r dysgwyr gydweithio er mwyn datblygu rhai o'r syniadau hyn.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Uned 1 – Meddwl am ddata

Olwyn werthuso



Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

OXFAM

Uned 2 – Data am y prosiect Bywydau Ifanc

Olwyn werthuso

Rwy'n hyderus wrth ddefnyddio cyfrifiadur er mwyn cyflwyno data mewn modd mwy gweledol.

Rwy'n gwybod rhai rhesymau dros pam y gallai rhai pobl fod eisiau cyflwyno data mewn modd mwy gweledol.

Gallaf restru rhai petha sydd eu "hangen" arnom i wneud yn dda mewn bywyd.



Gallaf esbonio ystyr delweddu data.

Gallaf esbonio'r gwahaniaeth rhwng y pethau sydd eu "hangen" arnom a'r pethau rydym eu "heisiau".

Gallaf ddisgrifio rhai pethau sy'n wahanol rhwng bywydau'r plant a fu'n rhan o'r prosiect Bywydau Ifanc a'm bywyd i.

Gallaf drafod gyda phobl eraill mewn grŵp er mwyn gwneud penderfyniadau ar y cyd.

Gallaf ddisgrifio rhai pethau sy'n debyg rhwng bywydau'r plant a fu'n rhan o'r prosiect Bywydau Ifanc a'm bywyd i.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.
Gwerthuso eich dysgu

OXFAM

Uned 3 – Pŵer data

Olwyn werthuso

Gallaf ofyn ac ateb cwestiynau am gyfres o ddata.

Rwy'n deall bod llywodraethau, sefydliadau a chymunedau yn defnyddio data er mwyn helpu i wneud penderfyniadau wrth gynllunio at y dyfodol.

Rwy'n teimlo'n hyderus wrth ddefnyddio cyfrifiadur i greu ffeithlun.



Rwy'n gyfarwydd â rhai technegau y mae pobl yn eu defnyddio er mwyn sicrhau bod ffeithluniau'n effeithiol.

Rwy'n gyfarwydd â rhai ffyrdd y caiff "llesiant" pobl yn y wlad ei fesur.

Gallaf restru rhai rhesymau pam y gallai defnyddio ffeithluniau fod yn ddefnyddiol.

Rwy'n deall ystyr anghydraddoldeb.

Gallaf esbonio beth yw ffeithlun.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.
Gwerthuso eich dysgu

OXFAM

Olwyn werthuso wag



Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.
Gwerthuso eich dysgu

OXFAM